

CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 7fed o Ionawr 2014
Drefach Village Hall, 7.30pm 7th of December 2014

Yn bresennol/Present: Cyng. Bill Green, Cyng. Gwilym Jenkins, Cyng Geraint Hatcher, Cyng Daff Davies, Cyng Geraint Davies, Cyng Euros Davies, Cyng Mary Thomas, Cyng Alun James

Ymddiheiriadau/Apologise: Cyng Lewis Davies, Cyng Daniel Evans, Cyng Huw Davies

Materion Personol: Dymunwyd gwellhad buan i Sarah Humphreys-Jones, Frongelli wedi ei llawdriniaeth ddydd Nadolig. Roedd ei gŵr yn gyn-gadeirydd ar y Cyngor Cymuned.

Personal Matters: Good wishes were sent to Sarah Humphreys-Jones, Frongelli who had an operation on Christmas Day. Her late husband Jack was a past Chairman of the Community Council.

1	<p><u>Datgelu Buddianau Personol / Declare Personal Interest</u> Doedd dim buddianau personol. There were no declaration of interest.</p>
2	<p><u>Cadarnhau'r Cofnodion / Confirm Minutes</u> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr yn gywir gan y Cyng. Gwilym Jenkins ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Bill Green. The minutes of the December meeting were proposed as accurate by Cllr Gwilym Jenkins and seconded by Cllr Bill Green.</p>
3.	<p><u>Materion yn Codi / Matters Arising</u></p>
a.	<p>Roedd y Clerc wedi darllen trwy dogfen Cynllun Rheoli Cyrchfan Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru 2013-2020 – roedd prif elfennau'r ddogfen yn ymwneud â rhoi brand newydd i dwristiaeth yng Ngheredigion, edrych ar yr hyn sydd yn unigryw i Geredigion a datblygu sgiliau'r gweithle mewn twristiaeth. The Clerk had read through the Mid Wales Tourism strategy 2013-2020 – the main elements of the documents included preparing a new brand for tourism in Ceredigion, looking at what is unique to the county by developing the product and increasing the skill base of those who work in tourism.</p>
b.	<p>Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Un Llais Cymru ynglyn â recordio yng Nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned a beth yn union sydd angen ei gofnodi yn munudau'r cyfarfodydd.</p> <ol style="list-style-type: none">1) Recordio mewn cyfarfodydd: Os nad oes polisi gan y Cyngor Cymuned yn atal pobl rhag recordio mewn cyfarfodydd yna nid oes dim all y Cyngor ei wneud. Cynigodd y Cyng Bill Green bod polisi newydd yn cael ei greu gan y Cyngor Cymuned yn dweud "Ni chaiff aelod o'r cyhoedd recordio yng Nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanwenog" eiliwyd hyn gan y Cyng Mary Thomas, ac roedd pawb yn unfrydol. Cytunwyd bod yn rhaid egluro hyn i unrhyw aelod o'r cyhoedd a fydd yn mynychu'r cyfarfodydd yn y dyfodol.2) Mundau Cyfarfodydd: Cadarnhaodd Un Llais Cymru mae'r unig gofnod sydd angen ei nodi yw canlyniad y drafodaeth ac unrhyw resymau dros hynny (e.e. os yw'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu cais cynllunio yna rhaid nodi'r rhesymau cynllunio dros y penderfyniad). Nid oes angen nodi pwy wnaeth Cynnig nac Eilio nac ychwaith y drafodaeth a gafwyd. <p>The Clerk had been in touch with One Voice Wales regarding recording within the Community Council Meetings and what exactly needs to be minuted.</p> <ol style="list-style-type: none">1) Recoding in Meetings: If the Community Council do not have a policy restricting people from

	<p>recording within the meetings then there is nothing the council can do. Cllr Bill Green proposed that a new policy would be created stating that “No member of the public may record within the Llanwenog Community Council meetings” this was seconded by Cllr Mary Thomas, all members unanimously agreed. It was agreed that when a member of the public attends a meeting that this policy will be clearly noted to them.</p>
4	<p><u>Gohebiaeth / Correspondence</u></p> <p>a. Un Llais Cymru – Garddwestau Palas Buckingham – Cytunodd y Cyng Geraint Hatcher roi ei enw e a’i wraig ymlaen. One Voice Wales – Buckingham Palace Reception – Cllr Geraint Hatcher agreed to put his name and his wife’s name forward.</p> <p>b. Dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau – Ethics and Standards Committee Meeting dates – Nodwyd/Noted</p> <p>c. Adolygiad o’r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (Parcio) – Review of Parking Restrictions – Nid yw’n gymwysiadol i Blwyf Llanwenog / Not applicable for Llanwenog Parish</p> <p>d. Western Power Distribution – Invitation to stakeholder workshop with lunch – Feb 2014 – Nodwyd / Noted</p> <p>e. Cylchgrawn Bwcabus – Dosbarthwyd / Circulated</p> <p>f. Ceredigion Shop Mobility – Derbyniwyd llythyr yn dweud bod y cwmni wedi dod i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2013 / A letter was received noting that the company ceased at the end of December 2013.</p>
5.	<p><u>Taliadau a cheisiadau am Arian / Payments and requests for money</u></p> <p>a. Baner Cymru / Welsh Flag - £77.40</p> <p>b. Gareth Evans Repairs to Wiclet Gare on footpath at Glanyrafon - £66.72</p> <p>c. Laptop and Software - £468.00</p> <p>Derbyniwyd y taliadau uchod. All of the above payments were agreed.</p>
6.	<p><u>Ceisiadau Cynllunio / Planning Application</u></p> <p>a. Maeshedydd, Blaencwrt – Temporary Siting of a mobile unit for an agricultural workers dwelling for a 3 year trial period – No objection</p> <p>b. Tanrhos, Cwrtnewydd – Erection of a dwelling for an agricultural worker – No objection</p>

7.	<u>Unrhyw Fater Arall / Any Other Business</u>
a.	Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf
	<p>Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 4ydd o Chwefror 2014 am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach.</p>
	<p>It was decided to hold the next meeting on Tuesday, 4th February 2014 at 7.30pm in Drefach Village Hall.</p>
b.	<p>Cinio'r Cyngor Cymuned – Cynigwyd y 4ydd neu'r 5ed o Ebrill 2014 naill ai yng Nghlwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan neu yn Ffostrasol.</p>
	<p>Community Council Annual Diner – The 4th and 5th April 2014 was proposed in either Lampeter Rugby Club or Ffostrasol.</p>
c.	<p>Derbyniwyd llythr gan y Cyng Huw Davies yn nodi ei fod yn ymddiswyddo fel Cynghorydd y Cyngor Cymuned am resymau personol. Diolchwyd i Huw am ei waith i'r Cyngor Cymuned dros y 10 mlynedd diwethaf. Cynigwyd bod llythr o ddiolch yn cael ei ddanfod ato.</p>
	<p>A letter was received by Cllr Huw Davies stating that he is resigning as a Councillor of the Community Council for personal reasons. Huw was thanked for all his work for the Community Council during the past 10 years. It was proposed that letter of thanks was sent to him.</p>
d.	<p>Dyweddodd y Cyng Alun James bod y gwteri ar hyd Highmead Terrace yn llawn a bod angen i'r Cyngor eu glanhau.</p>
	<p>Cllr Alun James noted that the gutters along Highmead Terrace are full and that the Council needs to clean them.</p>